



## Comisiwn, galwad a nerth

Pobl gyffredin fel chi a fi oedd y disgyblion cyntaf.

Bu iddynt dderbyn nerth a grym unigryw'r Ysbryd Glân i'w galluogi i gario allan cenhadaeth Crist yn y byd.

Yn yr un modd heddiw wrth i ni ymateb i'w alwad: 'Pwy a anfonaf? Anfon fi' mae'n rhoi i ninnau yr Ysbryd Glân. Yn sicr mae ei angen arnom heddiw.

### Nerth i wrthsefyll

Rhaid wrth rym a nerth yr Ysbryd Glân er mwyn i ni allu gwrthsefyll a gorchfygu'r drygioni sydd yn ein byd.

Ni allwn obeithio gwneud hynny yn ein nerth ein hunain. Bu i Grist wynebu'r diafol wyneb yn wyneb ar sawl achlysur a bu'r diafol ar hyd yr oesoedd, a heddiw hefyd, yn ceisio denu a themtio a dinistrio dilynwy'r yr Arglwydd. Ond

methiant fu'r ymdrech i ddinistrio ffydd a chred y Cristion oherwydd bod grym a nerth yr Ysbryd Glân yn gryfach ac yn fwy nerthol na grym y diafol.

Mae galwad arnom felly i wirioneddol gredu hynny a gadael i'r Ysbryd ein meddiannu, ein dysgu, ein harwain a thrigo o'n mewn i'n gwarchod a'n hamddiffyn rhag yr Un drwg.

Fel y mae Paul yn ein hatgoffa yn ei Lythyr at yr Effesiaid: 'ni ddim yn ymladd yn erbyn pobl. Mae'n brwydr ni yn erbyn y bodau ysbrydol sy'n llywodraethu, sef yr awdurdodau a'r pŵerau tywyll sy'n rheoli'r byd yma; y fyddin ysbrydol ddrwg yn y byd nefol.' (Effesiaid 6:12 BNET) Neu fel y rhybuddiodd Pedr yn ei Lythyr cyntaf: 'Gwylwch eich hunain! Byddwch yn effro! Mae'ch gelyn chi, y diafol, yn prowla o gwmpas fel llew yn

rhuo ac yn edrych am rywun i'w lynu.' (1 Pedr 5:8 BNET)

### Nerth i wynebu heriau

Heb rym a nerth yr Ysbryd ni allwn wynebu her a sialensiau'r dasg enfawr sydd o'n blaenau heddiw fel disgyblion i Grist.

Duw sydd yn ein galw. Crist sydd wedi ein comisiynu. Rydym i dystiolaethu ac ymateb i'w alwad 'Anfon fi.' Rhaid i ni rannu gofal, chonsyrn a chariad Crist yn y byd heddiw. Rhaid i ni adael i'r Ysbryd Glân ein meddiannu, ein harwain a'n galluogi i dyfu'n ysbrydol os ydym am fod yn wir ddisgyblion i Grist heddiw. Yr Ysbryd sydd yn ein galluogi ac yn cynhyrchu ynom y rhinweddau hynny sydd yn adlewyrchu cymeriad ac ysbryd

*(parhad ar dudalen 2)*

## 'O mor hoff yw cwmni'r brodyr' (a chwiorydd)

Cymdeithasfa'r Gwanwyn, Lerpwl – Ebrill 17-18, 2018

Braint i Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain oedd croesawu Cymdeithasfa'r Gwanwyn i Ddinas Lerpwl. Cyfeillion Bethel Heathfield Road a wnaeth y trefniadau i gyd. Roedd Canolfan LACE, Sefton Park mewn safle hyfryd ac yn ddelfrydol i'r pwrpas. Mawr ddiolch i Dr John Williams, y gweinidog a'r blaenoriaid a chynorthwyr eraill am eu gwaith caled yn cynllunio a gofalu bod pob peth yn rhedeg yn hwylus. Bu'r gymdeithas yn hyfryd iawn ac yn gwbl gyson â phroffes cwmni o bobl yn arddel yr Arglwydd iesu. Eto, cafwyd trafodaeth fywiog yn y cyfarfodydd busnes. Bu gwahaniaeth barn ar fater newid trefn ethol blaenoriaid. Clywsom apêl huawdl gan y Dr D Ben Rees o blaid caniatáu i



aelodau llesg ac oedrannus, (ond yn dal â dymuniad cryf i fod ynglŷn â bywyd yr eglwys), gael pleidlais trwy'r post pan yn ethol blaenoriaid newydd. Un peth arall a ddaeth i'r brig tro ar ôl tro oedd

pwysigrwydd Cynllun Strategaeth cyfredol ym mhob henaduriaeth ac y dylid gofalu bod y defnydd a wneir o'n hadnoddau yn hyrwyddo amcanion a

*(parhad ar dudalen 2)*

## Comisiwn, galwad a nerth (parhad)

ein Harglwydd ynom. Wrth adael i'r Ysbryd ein meddiannu rydym yn cael meddiant o ffrwyth yr Ysbryd yr hwn sydd yn ein cynorthwyo i ymateb i'r alwad 'Pwy a anfonaf?'

### Nerth i ddwyn Ffrwyth

'Ond dyma'r ffrwyth mae'r Ysbryd Glân yn ei dyfu yn ein bywydau ni: cariad, llawenydd, heddwch dwfn, amynedd, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunanreolaeth. Felly os ydy'r Ysbryd wedi rhoi bywyd i ni rhaid i ni adael i'r Ysbryd ein harwain ni.' (Galatiaid 5: 22-23, 25 BNET)

Y Pentecost hwn gadawn i'r Ysbryd Glân ein meddiannu o'r newydd fel y gallwn ddefnyddio'n doniau a'n hamser er lles a lledaeniad teyrnas cariad Crist. Agorwn ein meddyliau a'n calonnau fel y gall yr Ysbryd ei hun rhoi'r nerth a'r grym i ni ar gyfer y dasg enfawr, ond nid amhosibl, sydd o'n blaenau. Ydan ni'n barod i adael i'r Ysbryd ei hun ein harwain a'n defnyddio yn 2018? 'Pwy a anfonaf? Anfon fi.'

*Brian Huw Jones, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol*

O Ysbryd byw, dylifa drwom,  
bywha dy waith â grym y groes'  
O Ysbryd byw, tyrd, gweithia ynom,  
cymhwysa ni i her ein hoes.

O ddwyfol wynt, tyrd, plyg a thrin ni  
nes gweld ein hangen ger dy fron;  
ac achub ni â'th hael dosturi,  
bywha, cryfha; clyw'r weddi hon.

O gariad Crist, chwyth arnom eto,  
rho galon ac ewyllys lân;  
tyrd, gariad Crist, drachefn i'n huno,  
glanha'r holl dŷ â'th sanctaidd dân.


Bywha ni, Grist: mae'n sêl ar ddarod,  
mor aeddfed wyn yw'r meysydd mawr  
bywha ni, Grist, mae'r byd yn barod,  
rho inni ras i daenu'r wawr.



ELIZABETH PORTER HEAD, 1850-1936  
cyf. E. H. GRIFFITHS

## Cymdeithasfa'r Gwanwyn, Lerpwl (parhad)

bwriadau'r cynllun. Tynnwyd sylw hefyd at y newid trefniadaeth sydd yn digwydd yn gyflym iawn yn y Cyfundeb a bod yn rhaid gofalu bod ein copi o'r Llawlyfr Trefn a Rheolau yn cael ei ddiweddarau yn ofalus pan fo angen hynny.



*Parch Marcus Robinson, Ysgrifennydd y Sasiwn yn cael ei longyfarch am 40 mlynedd o wasanaeth*

Yng nghapel Bethel y bu'r ymddiddan ag Anna Jane Evans a'r gwasanaeth ordeinio i ddilyn. Clywsom dystiolaeth hwyliog, diffuant a diymhongar yn sydd eisoes wedi dangos ei ffyddlondeb a'i brwdfrydedd yng ngwaith yr Arglwydd. Roedd y capel dan ei sang i'r oedfa ac anerchiad y Parch Eric Jones (gweler Goleuad 20fed Ebrill) yn bwrpasol ac yn her i Anna Jane a phawb arall oedd yn bresennol. Trosglwyddwyd y

llywyddiaeth i'r Parch. Olwen Williams, Tudweiliog.

Diolch i Eric am ei arweiniad hawddgar a phob bendith ar flwyddyn llywyddiaeth Olwen.

Cafwyd eisteddiad hyfryd ar y bore Mercher yn ôl yng nghanolfan LACE. Bu cyfle i gofio am y rhai a gollasom a gwrando ar y sgwrs difyr, doniol ac adeiladol fu rhwng y Parch. Eric Greene a'r Parch. Ddr. D. Ben Rees ynghylch Hanes yr Achos yn yr henaduriaeth. Wedi ein harwain at fwrdd y Cymun gan ein llywydd newydd daeth yn amser lluniaeth a throi am adref.

*Parch David Owens*



*Mr Islwyn Rees, Ebeneser, Llawryglyn yn derbyn tystysgrif i gydnabod ei wasanaeth am 40 fel blaenor gan Lywydd y Gymdeithasfa*



*Y rhai gymrodd ran yn y Gwasanaeth Ordeinio. Parch Anna Jane Evans yn y canol*



*Trafodaeth am Hanes yr Achos gan y Parch Ddr D Ben Rees a'r Parch Eric Greene*

## Taro'r Post



*Annwyl Olygydd,*

Cefais fendith wrth ddarllen araith y Parch Eric Jones, Llywydd Sasiwn y Gogledd, 'Dyma fi yn eich anfon allan...' a ymddangosodd yn y Goleuad, 20 Ebrill, 2018.

Wrth ddarllen ei sylwadau aeth fy meddwl yn ôl i Benygroes, Sir Gâr a chofio am Gyfarfodydd Cenhadol a gynhaliwyd yn y Deml Apostolaidd, y canu bywiog, a'r llefaru ysbrydoledig.

Prif amcan y Cyfarfodydd Cenhadol oedd 'commission of new missionaries' a'i hanfon allan i wledydd tramor. Hyfryd yw clywed erbyn hyn bod yr Eglwys Apostolaidd dramor yn fwy na'r fam eglwys. Tybed beth fyddai gan Pastor Dan i ddweud am hyn?

Fel y dywedodd y Parch Eric Jones wrth gofio geiriau'r Archesgob Donald Cogan, mae ein gwlad yn 'Godless Hopeless.'

'Mae'r gelyn yn gryf, ond cryfach yw Duw...'

Diolch eto i'r Parch Eric Jones, a phob bendith ar weinidogaeth y Parch Anna Jane Evans yn Lerpwl.

'You'll never walk alone...'

Yr eiddoch yn gywir,

**Parch Maldwyn John, Rhydaman**